Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cwrtnewydd
# Cwrtnewydd
# Llanybydder
# Ceredigion
# SA40 9YN

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2013**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ar gyrion pentref Cwrtnewydd, tua wyth milltir i'r gorllewin o Lanbedr Pont Steffan. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion. Ar hyn o bryd, mae 37 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar y gofrestr. Daw'r disgyblion o'r pentref ei hun a'r ardaloedd cyfagos. Addysgir y disgyblion gan ddwy athrawes amser llawn, dwy ran amser a dwy gymhorthwraig dysgu. Mae'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol yn ardal draddodiadol Gymreig ac mae oddeutu 50% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Y Gymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu a dysgu'r ysgol.

Addysgir rhaglenni astudio Cymraeg Iaith Gyntaf. Ni ystyrir yr ardal yn freintiedig nac o dan anfantais economaidd. Mae gan 13% o'r disgyblion yr hawl i dderbyn cinio am ddim sy'n llai na'r canranau'r sirol a chenedlaethol. Mae cyrhaeddiad y disgyblion yn amrywio'n sylweddol pan gychwynnant yn yr ysgol. Cynrychiolir amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac nid yw'r ysgol yn ystyried bod yr ardal naill ai'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd.

Mae gan oddeutu 11% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY), sydd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Does dim un ohonynt â datganiad o anghenion dysgu ychwanegol. Bu newidiadau sylweddol yn nhrefniadaeth a natur yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf yn nhymor yr Hydref 2006. Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ionawr 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Cwrtnewydd yn 2012-2012 oedd £3,842 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd awdurdod Ceredigion yw £12,284 a'r isafswm yw £2,820. Mae Ysgol Gymunedol Cwrtnewydd yn y 30ain safle o'r 58 ysgol gynradd yn awdurdod Ceredigion o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn Rhagorol oherwydd:

- bod safonau'r ysgol yn gyson uwch nag ysgolion tebyg;
- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd arwyddocaol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth dda iawn gan yr ysgol;
- bod y disgyblion yn dangos parch a gofal at ei gilydd ac at oedolion;
- bod yr athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion yn effeithiol iawn; a
- bod y cynllunio ar gyfer anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn effeithiol iawn.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yr ysgol yn Rhagorol oherwydd:

- bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn iawn yn seiliedig ar werthoedd o rannu a pharch;
- gwneir defnydd arbennig o effeithiol o ddata perfformiad i ddadansoddi canlyniadau a thueddiadau ac i gynllunio'n strategol ar gyfer gwella;
- bod gweledigaeth y pennaeth yn greiddiol i fywyd yr ysgol ac mae pawb yn deall ac yn gweithredu'r nodau ac amcanion;
- bod gan yr ysgol broses hunanarfarnu gynhwysfawr a thrylwyr sy'n rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol;
- bod gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at y ddarpariaeth ac at y safonau uchel;
- bod y pennaeth a staff yn rheoli'r holl adnoddau yn effeithiol iawn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cynnydd pellach yng nghyfran y disgyblion sy’n cyrraedd y lefelau uwch

A2 Datblygu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhifedd ac ysgrifennu yn Saesneg ar draws y cwricwlwm.

A3 Cryfhau agweddau ar ddinasyddiaeth fyd-eang

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae bron pob disgybl yn yr ysgol yn gwneud cynnydd arwyddocaol. Mae bron pob un yn llwyddo'n arbennig o dda ac yn cyrraedd safonau uchel.

Yn y Cyfnod Sylfaen mae'r disgyblion ieuengaf yn ymgartrefu'n gyflym, yn gwneud cynnydd arbennig o dda, ac yn datblygu'n effeithiol fel dysgwyr annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu medrau llafaredd a gwrando yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen sydd yn aml o bwynt mynediad isel yn llwyddo i gyrraedd safonau uchel erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae ganddynt gof da am wybodaeth a ddysgwyd yn flaenorol ac maent yn defnyddio a chymhwyso eu medrau'n dda mewn sefyllfaoedd amrywiol.

Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn trin a thrafod storïau aa yn dod yn gynyddol gyfarwydd â defnyddio llyfrau priodol. Mae eu medrau darllen cynnar yn datblygu yn dda iawn ac maent yn defnyddio ystod o strategaethau priodol i fynd i'r afael â geiriau newydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae'r mwyafrif yn medru ysgrifennu'n annibynnol gyda llawysgrifen daclus a sillafu cywir yn y Gymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn rhugl, gan ddangos dealltwriaeth dda o'r testun. Maent yn trafod eu llyfrau darllen ffuglen a ffeithiol yn frwdfrydig ac yn defnyddio eu medrau ymchwilio yn hyderus i wella eu gwaith eu hunain. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yn ysgrifennu'n ddychmygus ac yn effeithiol i gynulleidfa amrywiol gan wneud hynny'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol mae'r disgyblion yn datblygu'n dda iawn fel dysgwyr annibynnol. Maent yn datblygu strategaethau priodol i ddatrys problemau a gwnânt gynnydd da iawn yn eu medrau llythrennedd a'u medrau meddwl. Yn y ddau gyfnod allweddol mae'r disgyblion yn gallu siarad yn briodol ac yn rhwydd mewn sefyllfaoedd ffurfiol pan fo angen ac yn medru mynegi eu syniadau a'u barnau yn glir gan ddefnyddio iaith naturiol.

Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau dwyieithrwydd ac maent yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod addas ac eang o eirfa yn y ddwy iaith.

Mae canran y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012 sy'n cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5+) neu'n uwch mewn medrau iaith Gymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae perfformiad yr ysgol hefyd o fewn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran nifer plant â hawl i ginio am ddim.

Mae canran y disgyblion sydd wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'n uwch, sef lefel 4, mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn 2012 yn sylweddol uwch na pherfformiad ysgolion y teulu. Mae'r perfformiad hefyd o fewn y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion â hawl i ginio am ddim. Mae'r tueddiadau yma yn rhai fu'n gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni lefelau yn uwch na'r disgwyl, sef lefel 5, wedi amrywio o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pum mlynedd diwethaf.

Nid oes unrhyw batrwm arwyddocaol o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn o gymharu â pherfformiad merched na rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â'r rhai nad oes ganddynt hawl.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud cynnydd disgwyliedig ar gyfer eu gallu ac oedran. Mae ychydig yn llwyddo i gyrraedd safonau uwch. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae disgyblion abl a dawnus yn gwneud cynnydd da iawn.

**Lles: Rhagorol**

Mae'r holl ddisgyblion yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth dda iawn gan yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gref o'r hyn sydd ei angen i gadw'n iach ac maent yn cymryd rhan yn y cyfleoedd rheolaidd ar gyfer cadw'n heini.

Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yr holl ddisgyblion mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn ardderchog. Mae'r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos parch at ei gilydd ac at oedolion; maent yn ddisgyblion cwrtais iawn. Ymfalchïant yn eu hysgol ac mae eu hagwedd tuag at ddysgu yn eithriadol.

Cyfranna holl ddisgyblion yn effeithiol iawn i weithgareddau amrywiol yn yr ysgol, i gefnogi elusennau ac i fynychu ystod o glybiau allgyrsiol.

Mae presenoldeb y disgyblion ychydig dros 95% ac yn y chwarter uchaf o ysgolion a â chefndir tebyg. Mae prydlondeb yn dda iawn.

Mae'r Cyngor Ysgol yn frwdfrydig, yn weithgar ac yn cael effaith gadarnhaol ar amgylchedd yr ysgol. Maent yn cydweithio'n arbennig gyda'r staff i sicrhau bod yr ysgol yn lle diogel, iach a hapus. Mae ganddynt gysylltiadau llwyddiannus â busnesau lleol sy'n cefnogi'r prosiect 'Bagiau iachus Cwrt'. Mae'r holl ddisgyblion, ar draws yr ysgol, yn sylweddoli bod y Cyngor Ysgol yn eu cynrychioli a bod eu barn yn cyfrif.

Dangosa holl ddisgyblion yr ysgol aeddfedrwydd wrth iddynt hunanarfarnu, monitro pynciau, mynegi barn a dylanwadu ar fywyd yr ysgol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at ymestyn eu diddordeb, eu hannibyniaeth a'u mwynhad ym mywyd a gwaith yr ysgol yn arloesol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Darperir ystod eang iawn o weithgareddau a phrofiadau ysgogol gan yr athrawon a chynorthwywyr sy'n bodloni anghenion holl ddisgyblion yr ysgol. Nodwedd

gadarnhaol iawn yw bod llais ac anghenion y dysgwr yn bwydo'r cynlluniau. Caiff ddisgyblion gyfle i weithio mewn grwpiau llai gyda chymorth arbenigol effeithiol, ac o ganlyniad maent yn gwneud cynnydd sylweddol.

Rhoddir sylw manwl i gynllunio medrau llythrennedd, creadigol, datrys problemau a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm. Darperir dilyniant clir o ran parhad a chynnydd ac mae medrau cyfathrebu a darllen y dysgwyr yn datblygu yn effeithiol iawn. Mae'r disgyblion yn cael eu herio i weithio'n gyson drwy ymateb i dargedau personol heriol sy'n eu hannog i ddatblygu'n dysgwyr annibynnol. Mae'r holl ddisgyblion yn elwa yn sylweddol o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol megis yr Urdd a Chlwb Chwaraeon a mynychu ymweliadau niferus yn ystod y flwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth gyfoethog ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgol. Mae'r athrawon yn hyrwyddo hanes, daearyddiaeth, diwylliant a cherddoriaeth Cymru yn dda iawn ac mae ymwybyddiaeth y disgyblion yn gadarn. Mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau dwyieithrwydd ac maent yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan yr ysgol Gyngor Eco gweithgar ac effeithiol iawn sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion yr ysgol gyfan i fod yn gynaliadwy ac i ofalu am yr amgylchfyd. Er bod yr ysgol yn codi arian i'r ysbyty lleol, i leoedd fel Haiti ac yn fwy diweddar, wedi sefydlu partneriaeth gyda grŵp o wledydd eraill, nid yw'r elfen dinasyddiaeth fyd-eang wedi ei datblygu yn ddigon cyson drwy'r ysgol.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu'n gadarn ar draws yr ysgol ac mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda. Defnyddir ystod eang o ddulliau ac adnoddau addysgu o ansawdd briodol, sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion. Mae'r cynllunio'n fanwl ac mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel. Maent yn cwestiynu'n effeithiol ac yn fodelau da o ran iaith. Ceir perthynas waith effeithiol iawn rhwng oedolion a disgyblion sy'n meithrin awyrgylch iach ar gyfer dysgu, a darperir gwaith priodol sy'n ysgogi a herio bron pob disgybl.

Rhoddir adborth adeiladol llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella safon eu gwaith. Mae gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu yn rhan greiddiol o fywyd yr ysgol. Darperir cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion gydgynllunio gyda'r athrawon, i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion ac i gyfrannu'n effeithiol at y broses o osod targedau ar gyfer gwella'u gwaith. Mae'r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol at gyrraedd a chynnal safonau uchel.

Mae athrawon yn olrhain cynnydd y disgyblion yn effeithiol iawn ac, o ganlyniad, yn cynllunio'n benodol ar gyfer anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Mae'r ysgol yn cydweithio ag athrawon eraill o ysgolion cynradd lleol a'r ysgol uwchradd er mwyn dod i gytundeb o ran safonau asesiadau athrawon. Mae staff yn llunio adroddiadau dealladwy yn flynyddol i rieni a gofalwyr ar gynnydd y disgyblion. Mae'r adroddiadau hyn yn gynhwysfawr ac yn esbonio'n glir pa feysydd sydd angen eu gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Trwy nifer o weithgareddau arloesol mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae'r cynllun busnes rhwng siopwr lleol a disgyblion hŷn yr ysgol i werthu ffrwythau a llysiau yn wythnosol i'r rhieni a ffrwythau i'r disgyblion, yn codi ymwybyddiaeth ac yn annog holl ddisgyblion yr ysgol i fwyta'n iach.

Caiff y disgyblion gyfleoedd da iawn i fynegi barn wrth iddynt ddatblygu'n gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn foesol ac ysbrydol. Mae'r ysgol yn cydweithio'n arbennig iawn ag asiantaethau allweddol eraill fel yr Heddlu a swyddogion y sir i hybu diogelwch a lles y disgyblion ymhellach.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogaeth bersonol ac arbenigol ar gyfer pob disgybl yn eithriadol. Mae'r broses o adnabod ac ymateb yn gyflym i anghenion disgyblion unigol, sy'n cynnwys y rhai mwy abl a thalentog, yn llwyddiannus iawn.

Mae gan yr ysgol hefyd drefniadau cadarn iawn i adnabod a chynnal dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion grwpiau ac unigolion ac yn cynnig rhaglen bersonol ar gyfer disgyblion ag anghenion penodol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau unigol ar gyfer disgyblion perthnasol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan rieni a disgyblion fel rhan o'r broses. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn glir iawn am yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt ac maent yn gwneud cynnydd sylweddol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Sefydlir ethos cynhwysol a hapus dros ben yn yr ysgol sy'n seiliedig ar barch eithriadol y disgyblion tuag at ei gilydd ac eraill. Mae caredigrwydd y disgyblion tuag at ei gilydd yn nodwedd amlwg. Caiff pob disgybl gyfle cyfartal i bob maes dysgu a rhoddir pwyslais ar bwysigrwydd cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth trwy raglen addysg bersonol a chymdeithasol llwyddiannus iawn. Caiff disgyblion eu paratoi'n dda ar gyfer camau nesaf mewn addysg a bywyd.

Mae'r dosbarthiadau'n ddeniadol a gwneir defnydd effeithiol o'r adnoddau i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i fodloni anghenion y disgyblion. Fodd bynnag, y mae'r dosbarthiadau'n fach o ran maint ac ar adegau yn cyfyngu ar weithgareddau'r disgyblion. Mae cyflwr a glendid yr ysgol yn dda ac mae arddangosfeydd lliwgar o fewn yr ysgol sy'n atgyfnerthu'r addysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Darparir arweinyddiaeth gadarn iawn gan y pennaeth yn seiliedig ar werthoedd o rannu a pharch. Mae ei disgwyliadau uchel yn sicrhau cyfeiriad a diwylliant sy'n

ymdrechu am welliant parhaus a chynnal y safonau ardderchog sy’n amlwg ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae’r pennaeth yn ennyn cefnogaeth gadarn yr athrawes a gofal a gweddill y staff sy’n sicrhau gweithio’n agos fel tîm. Mae’r holl staff yn rhannu’r gwerthoedd a’r disgwyliadau ac yn cyflawni eu rolau’n gydwybodol iawn. Mae’r arweinyddiaeth yn sicrhau bod pob agwedd a blaengaredd o fywyd yr ysgol yn cael dylanwad clir a phositif ar y safonau a gyflawnir gan y disgyblion.

Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio’n glir iawn ar gynlluniau gwella gan roi pwyslais ar adolygu penderfyniadau blaenorol yn rheolaidd er mwyn, adnabod a gwerthuso cynnydd.

Gwneir defnydd arbennig o effeithiol o ddata perfformiad i ddadansoddi canlyniadau a thueddiadau ac i gynllunio’n strategol ar gyfer gwella.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth effeithiol. Mae ganddynt dealltwriaeth dda iawn o’r data perfformiad ac maen nhw’n ymwybodol o'r materion sy'n codi o ddadansoddi data ac o adroddiad hunanarfarnu’r ysgol. Defnyddir y wybodaeth yn rheolaidd i gytuno ar y meysydd y mae’r ysgol angen eu gwella’n bellach, ac i herio’r pennaeth pan mae’n briodol wneud hynny. Maent yn llwyr gyflawni eu rôl fel ffrindiau beirniadol.

Rhoddir sylw ardderchog i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae egwyddorion y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn dylanwadu’n effeithiol iawn ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r Cyfnod Sylfaen wedi sefydlu yn effeithiol a rhoddir sylw arbennig o dda ar bwysigrwydd datblygu llythrennedd a rhifedd.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae’r trefniadau hunanarfarnu ardderchog, sy’n rhan reolaidd o fywyd a gwaith yr ysgol, yn sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth dda iawn o berfformiad yr ysgol. Mae’r broses yn gynhwysfawr ac yn arbennig o drylwyr. I gynnal y safonau uchel dangosir llwyr ymrwymiad gan y pennaeth, y staff a’r llywodraethwyr. Defnyddir ystod dda iawn o weithgareddau monitro gan gynnwys dadansoddi manwl o ddata, arsylwi gwersi a chraffu ar waith y disgyblion. Mae gwrando ar lais y dysgwyr yn elfen gref iawn yn y broses, ac fe ystyrir eu sylwadau ynghyd â rhai’r rhieni o ddifrif.

Mae blaenoriaethau yn y cynllun gwella ysgol yn canolbwyntio’n glir ar godi safonau. Gosodir targedau meintiol, heriol ac mae’r cynllun yn nodi camau gweithredu manwl sy’n cynnwys dangosyddion llwyddiant ac amserlenni addas ar gyfer eu cwblhau. Mae cysylltiad clir iawn rhwng canfyddiadau'r broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella deilliannau.

Mae’r berthynas â gwasanaeth addysg yr awdurdod lleol yn sicrhau her barhaus i’r ysgol sydd wrth fynd drwy’r broses flynyddol o hunan arfarnu.

Mae cymuned ddysgu broffesiynol, sefydledig yn yr ysgol sy’n galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol iawn. Gwnânt y defnydd gorau posibl o’r bartneriaeth gydag ysgolion eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn flaenllaw yn y broses o gymedroli a chydsafoni asesiadau parhaus. Yn sgil y Cynllun Tri Phwnc mae staff addysgu'n cyfnewid ag athrawon o ysgolion eraill sy'n cael effaith gadarnhaol ar brofiadau holl ddisgyblion yr ysgol. Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at y ddarpariaeth ac at y safonau ardderchog y mae'r disgyblion yn eu cyflawni. Mae'r bartneriaeth gref gyda'r rhieni yn cyfrannu'n effeithiol iawn at wireddu nodau a gwelliannau'r ysgol. Nodwedd arbennig o'r bartneriaeth yw'r nifer y cyrsiau a gyflwynir i'r rhieni sy'n gyfrwng rhagorol i sefydlu perthynas gadarn ac ymglymu'r rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau.

Mae cysylltiadau niferus iawn â'r gymuned leol ac mae hyn yn cael dylanwad helaeth ar brofiadau dysgu'r disgyblion a'u hymwybyddiaeth o'u cymuned a phwysigrwydd cyfrannu iddi.

Ceir cydweithio a chynllunio effeithiol iawn rhwng yr ysgol a'r ddwy ysgol arall yn y clwstwr sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau dysgu ac addysgu.

Mae cyswllt agos iawn rhwng yr ysgol a'r Cylch Ti a Fi a gynhelir yn neuadd yr ysgol a hefyd yr ysgolion meithrin lleol sy'n cyfarfod yno yn achlysurol. Mae'r canllawiau ar gyfer paratoi'r disgyblion newydd i ymgartrefi'n gyflym wrth ddechrau'r ysgol yn llwyddiannus iawn.

Mae rhaglenni pontio effeithiol iawn yn bodoli i sicrhau bod disgyblion yn parhau â'u cynnydd o'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 2 ac yna o flwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd leol. Mae'r cydweithio agos a pherthynas waith y staff yn un effeithiol tu hwnt ac yn dylanwadu'n gryf ar safonau'r disgyblion ac ar yr arfer o gyfnewid arferion addysgu da.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r pennaeth a staff yn rheoli'r holl adnoddau yn fedrus iawn. Maent yn sicrhau lefel effeithiol o staffio i addysgu'r cwricwlwm yn llwyddiannus gan sicrhau bod y staff yn gwneud y defnydd gorau o'u hamser, harbenigedd a'u profiad. Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn drylwyr iawn ac yn effeithio'n sylweddol ar y safonau.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae rhannu adnoddau â phartneriaid mewn ysgolion bach eraill y clwstwr yn gryfder ac yn arwain at wella deilliannau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth rhagorol am arian oherwydd ei bod yn gweithio'n effeithiol iawn fel cymuned ddysgu ac yn sicrhau deilliannau uchel. Maent yn rheoli ei hadnoddau'n dda iawn i sicrhau bod holl ddisgyblion yr ysgol yn cyrraedd eu potential, gan gynnwys y disgyblion dawnus a thalentog.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae cyflawniad y disgyblion yn dda mewn perthynas â chyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn medrau iaith Gymraeg, datblygiad mathemategol a datblygiad personol (y dangosydd Cyfnod Sylfaen) ac yn well o gymharu â'r cyflawniad cenedlaethol a chyfartaledd y teulu o ysgolion. Perfformiodd y bechgyn a'r merched yn gyfartal yn 2012. Mae cyflawniad y disgyblion ar ddeilliant 6, sef y lefel uwch na'r disgwyliedig, yn uwch na pherfformiad y teulu a chenedlaethol.

Mae perfformiad disgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 wedi bod yn gyson uchel dros pedair o'r pum mlynedd diwethaf. Yn 2012 roedd cyflawniad y disgyblion yn Saesneg neu'r Gymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn uwch na chymedr y teulu o ysgolion. Roedd hyn hefyd yn wir mewn pedair o'r pum mlynedd diwethaf yn Saesneg a Chymraeg ac am y pum mlynedd diwethaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Mewn Cymraeg, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig neu uwch, sef lefel 4, yn gyffredinol wedi bod yn uwch na chymedr y teulu o ysgolion mewn pedair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn darllen ac ysgrifennu Cymraeg wedi bod yn uwch na chymedr y teulu mewn pedair blynedd o'r pump diwethaf aa mae'r duedd i fyny eto ers 2011. Mewn Saesneg, bu canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, yn uwch na chymedr y teulu dros y pum mlynedd diwethaf.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4,mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim.

Bron yn ddieithriad bu perfformiad yr ysgol yn y pynciau craidd unigol yng nghyfnod allweddol dau yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion â hawl i ginio am ddim dros y pum mlynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch na'r disgwyl, lefel 5 neu uwch wedi bod yn anwastad, ac weithiau'n uwch na chymedr y teulu o ysgolion a Chymru dros y pum mlynedd ddiwethaf.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron i ddysgwyr**

Ymatebodd 25 o ddisgyblion i'r holiadur. Mae'r ymateb yn gadarnhaol iawn, gyda phawb yn cytuno gyda bron pob un datganiad. Mae bron pawb yn cytuno bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio ac mae bron pawb yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Mae ychydig iawn o'r disgyblion yn anghytuno fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a hefyd eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae pawb yn cytuno bod yr ysgol yn eu cefnogi a'u cynorthwyo'n dda, ac yn eu dysgu sut i aros yn iach. Mae'r disgyblion i gyd yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Mae'r ymateb yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

**Holiaduron i rieni**

Derbyniwyd ymatebion oddi wrth 11 o rieni. Mae'r rhan fwyaf yn cytuno'n gryf bod eu plant yn hoffi'r ysgol a bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Maent o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda iawn ac mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae llawer o rieni yn cytuno bod eu plant yn cael eu hannog i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a'u haddysgu i gadw'n iach. Dywed y rhan fwyaf fod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda parch ac mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r rhieni hefyd yn nodi eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Eleri Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Buddug Bates | Arolygydd Tîm |
| Veronica Williams | Arolygydd Lleyg |
| Catrin James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Heddwen Davies | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i’r ysgol ddarparu copïau o’r adroddiad i holl rieni’r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai’r ysgol anfon copi o’r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae’r adroddiad data i’w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â’r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae’r term ‘Derbyn’ (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy’n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw’r grŵp o fyfyrwyr sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |